

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af o Dachwedd 2018.

1 Presennol - Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry - Bryncir, John Jones Anwen Humphreys Maldwyn Owen - Garndolbenmaen, Eifion Williams - Penmorfa, Richard Williams Gwilym Evans - Prenteg, Huw Pritchard Delyth Evans - Pentrefelin, Amanda N Owen Megan Lloyd Williams - Golan. Caroll Morris, Eryl Morris.

2 Ymddiheuriadau - Clifford Williams, Dafydd Thomas, Gwenno Huws, Cyngorydd Stephen Churchman

3 Ddim yn bresennol - neb.

4 Datgan Buddiant - neb

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion - Cofnodion - 4/10/18. Richard Williams yn datgan eu cywirdeb a Richard Parry yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Golau Stryd ger Bron Awen, Prenteg - mae swyddog o'r Adran Golau Stryd wedi ymweld, ond nid oes ganddynt gofnod o bwy yw perchennog y tir. Clerc i gysylltu i ddweud nad yw'r wybodaeth gan y Cyngor Cymuned.

Pont y Traeth - Archifdy yn Nolgellau yn ymchwilio i weld oes ganddynt ddogfennau dyddiedig cyn 1864.

Map ardal Dolbenmaen - nid yw Cyngor Gwynedd wedi ymateb i'r cais. Clerc i gysylltu eto.

7 Mynwentydd

Mynwent Prenteg - Mae un darn o'r fynwent heb ei dorri ac mae angen clirio'r mieri. Clerc i gysylltu gyda'r contractwr.

Eglwys St Michael's Cwm Pennant - Bwlch yn y wal. Gofynnwyd i 2 gontractwr am bris i atgyweirio'r wal. Derbyniwyd 1 pris am £130. Penderfynwyd aros am yr ail bris.

Mynwent Bethel - Yn ddiweddar, derbyniwyd canmoliaeth gan aelod o'r cyhoedd am yr ymdrech mae'r Cyngor yn gwneud i gadw'r fynwent yn daclus. Gwerthfawrogodd y person dan sylw, yr apêl sy'n cael ei wneud

yn rheolaidd gan y Cyngor i bobl sy'n ymweld â'r fynwent i fynd a'u sbwriel oddi ar dir y fynwent. Gobeithir gallu cadw'r safon drwy gydweithrediad parhaol ymwelwyr i'r fynwent. Penderfynwyd cysylltu â'r Contractwr i ddiolch iddo am ei waith yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni hyn.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Ysgol Golan - bydd gwaith yn cychwyn ar y llwybr unwaith mae'r gwaith o wella'r llwybr ger Ysgol Garndolbenmaen wedi ei orffen.

Gorchymyn Cyngor Gwynedd - Gwyo Llwybr Cyhoeddus Rhif 18 - derbyniwyd llythyr gan Wasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod y cyfnod gwrthwynebu wedi dod i ben ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r gorchymyn.

9 Adroddiad Pentrefi -

Garndolbenmaen

Pwyllgor y Neuadd angen goriad i'r hysbysfwrdd. Bydd y Cyngorydd John Jones yn trefnu gwneud copi.

Cross Foxes - Clerc i holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r dreth ar y maes parcio a'r tŷ tafarn.

Bryncir

Gorsaf bws angen ei lanhau. Clerc i holi am brisiau.

Pentrefelin

Derbyniwyd llythyr gan Gymdeithas Gwarchod Cymdogaeth Criccieth yn egluro fod y Gymdeithas wedi dirwyn i ben. Yn amgaeedig, hefyd, roedd siec am £710.44c, sef gweddill yr arian yn y cyfrif a'r Gymdeithas am ei drosglwyddo at ddefnydd y Cyngor Cymuned.

Cafwyd ar ddeall fod yr arian wedi ei addo ar gyfer prynu diffibriliwr i Bentrefelin. Trafodwyd oedd yn bosib i'r Cyngor Cymuned gadw'r arian ar ran Cronfa Diffibriliwr Pentrefelin. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn gwneud fwy o ymholiadau cyn bancio'r siec.

Sedd Wag Pentrefelin/Treflys - derbyniwyd llythyr gan Meinir Raine yn dangos diddordeb yn y sedd wag. Huw Pritchard yn cynnig bod y

Cyngor yn ei chyfethol ac Amanda N Owen yn eilio a gweddill y Cynghorwyr yn cytuno. Y Clerc i'w gwahodd i gyfarfod mis Rhagfyr.

Golan

Mae'r lôn yn llithrig ar ei hyd. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

- 10 Cyflwyniad gan Gymdeithas Cymunedol Garndolbenmaen
Croesawyd Caroll Morris ac Eryl Morris i'r cyfarfod. Cafwyd cyflwyniad ganddynt o gynlluniau'r Gymdeithas ar gyfer Tŷ Tafarn y Cross Foxes. Gobeithir codi £80,000 trwy werthiant cyfranddaliadau. Gellir cael mwy o wybodaeth am hyn ar ei safle we www.crossfoxescymunedol.co.uk. Bydd cais yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad am grant i brynu'r adeilad. Os yn llwyddiannus, y cam cyntaf bydd agor y bar, fydd yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr. Yna bydd angen ail wneud y gegin er mwyn gallu cynnig bwyd a chyflogi cogydd. Mae datblygiadau pellach yn cynnwys tŷ bynciau a gobeithir gallu denu pobl lleol yn ogystal â beicwyr a cherddwyr i ddefnyddio adnoddau'r tŷ tafarn. Diolchwyd iddynt am eu cyflwyniad.
- 11 Rhoddion Ariannol
Penderfynwyd rhoi hysbyseb rhoddion ariannol yn y papurau bro. Dyddiad cau bydd 31 Rhagfyr 2018.
- 12 Llythyr Cyngor Tref Porthmadog
Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Tref Porthmadog i ofyn barn y Cyngor Cymuned ar wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i Lyn ac Eifionydd yn 2021 neu 2025. Penderfynwyd ateb i gefnogi'r syniad ar gyfer 2025, ond i ddatgan pryderon am safle addas.
- 13 Archwiliad Mewnol
Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor ar y materion yn codi o'r archwilio ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018. Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda Unllais Cymru ar gyfer y mater o gadw arian wrth gefn. Awgrymodd Unllais fod y Cyngor yn cwestiynu penderfyniad yr Archwilydd Allanol. Gwnaethpwyd hyn, ond nid ydynt wedi ymateb.

14 Ymarferiad ymgysylltu Cyngor Gwynedd 'Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi'

Penderfynwyd peidio cwblhau'r holiadur.

15 Gohebiaeth

a Cyngor Gwynedd - Llythyrau gan Cyngor Gwynedd Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd 2017 - 2018

Hysbyseb Aelodau Annibynnol Pwyllgor Safonau

Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd - Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol (1 cynrychiolydd)

b Cyngor Tref Criccieth - Gwahoddiad i Wythnos y Cofio 2018

c Age Cymru - Rhaglen Grant Dathliad Gaeaf (rhannwyd gyda swyddogion Neuaddau/Canolfannau Cymunedol)

16 Cynllunio

Rhestrau 8/10, 15/10, 22/10/18 Ychwanegwyd rhestr 26/10/18.

Ceisiadau Cynllunio

C18/0524/36/LL Cais ar gyfer codi ffens a chodi sied a chreu man arddangos a storio cynnyrch. Siop Teils Bryncir, Canolfan Garddio, Bryncir, Gwynedd. LL51 9LZ

17 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Dim.

Monitro'r gyllideb - Taenlen misol. Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Hyfforddiant - Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cael mynychu cwrs

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc = £ 237.99

Ffôn = £ 10.00

Cyfrifiadur = £ 15.00

HMRC = £ 59.40

Clerc (torchau pabi) = £ 102.00

Derbyniadau - Gwilym Jones Ymgymmerwyr Angladdol = £110.

Pritchard a Griffiths = £220

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £16,784.90. Cyfredol - £6,858.80

18 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg

- Cais cynllunio
- Mynwent Bethel
- Rhoddion ariannol
- Canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf
- Cyflwyniad gan Gymdeithas Cymunedol Garndolbenmaen